Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Ysgol Pant Pastynog
Prion
Dinbych
LL16 4SG

10/12/2024

Annwyl Meirion L. Edwards

**Ymweliad Interim:** Tachwedd 2024

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Pant Pastynog ar 18 Tachwedd 2024 i ystyried sut mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â dwy o flaenoriaethau cynllun gwella'r ysgol ar gyfer 2023-24. Isod, ceir crynodeb o gynnydd yn erbyn y blaenoriaethau hynny.

Yn ystod yr ymweliad cafodd y tîm gyfle i:

- •ymweld â dosbarthiadau
- •siarad â disgyblion
- •cyfarfod gydag athrawon ac arweinwyr
- •craffu ar waith disgyblion
- •craffu ar ddogfennaeth

**Ffocws yr ymweliad**

**Datblygu sgiliau llafar y disgyblion wrth ddilyn cynllun llythrennedd y sir**

- Mae arweinwyr wedi gwerthuso'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg yn bwrpasol ac, o ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella yn y maes hwn.
- Maent yn mynd i'r afael â'r meysydd gwella'n bwrpasol ac yn cynllunio'n fwriadus ar gyfer gwella medrau llafar Cymraeg y disgyblion.
- Ar y cyfan, mae athrawon yn modelu'r Gymraeg yn bwrpasol. Maent yn defnyddio patrymau iaith a geirfa'n fwriadus ac yn darparu gweithgareddau hwyliog sydd yn ennyn diddordeb llawer o'r disgyblion yn addas.
- Ar brydiau, nid yw athrawon yn annog disgyblion i ymateb yn y Gymraeg yn ddigon cyson ac, o ganlyniad, mae ychydig o'r disgyblion ieuengaf yn dueddol o gynnig ymatebion a chychwyn sgyrsiau yn y Saesneg.
- Mae y rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn defnyddio'r Gymraeg yn naturiol fel cyfrwng cyfathrebu. Maent yn trafod eu gweithgareddau'n aeddfed ac yn



Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

mynegi eu hunain yn glir gan ddefnyddio iaith a chystrawen sydd yn gywir ar y cyfan.

- Mae llawer o ddisgyblion yn frwdfrydig ynglŷn â dysgu drwy'r Gymraeg ac maent yn ymfalchïo yn eu gallu i gyfathrebu'n ddwyieithog.
- Dros amser, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da yn erbyn y flaenoriaeth hon.

**Datblygu sgiliau rhifedd y disgyblion gyda ffocws ar ei ddatblygu'n drawsgwricwlaidd ac mewn cyd-destunau real.**

- Dros amser, mae medrau rhifedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n briodol.
- Yn y dysgu sylfaen, mae athrawon wedi sefydlu amgylchedd ddysgu ddeniadol sydd yn cefnogi'r dysgu'n effeithiol er mwyn i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd. Er enghraifft, mae disgyblion yn dylunio a chreu rocedi gwellt ac yn defnyddio dull priodol i fesur y pellter mae'n hedfan.
- Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn trafod eu dysgu'n hyderus. Maent yn esbonio gofynion eu tasgau'n fedrus ac yn datblygu'r gallu i feddwl yn feirniadol am eu profiadau.
- Mae staff yn cydnabod fod gwaith datblygu pellach ei angen o ran ymestyn y cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm.
- Ar brydiau, mae athrawon yn gorddefnyddio taflenni gwaith a sgaffaldiau i gefnogi'r dysgu. Mae hyn yn llesteirio'r cyfleoedd i ddisgyblion arbrofi'n fwy rhydd, dysgu o gamgymeriadau a herio eu hunain hyd eithaf eu gallu.
- Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi rhannu gwybodaeth gynhwysfawr gyda rhieni ynghylch sut mae athrawon yn datblygu medrau rhifedd ar draws yr ysgol, ynghyd ag awgrymiadau ynglŷn â sut y gall rieni gefnogi'r dysgu adref. Ar hyn o bryd, mae'n rhy fuan i fesur effaith hyn ar gynnydd disgyblion.
- Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd priodol yn erbyn y flaenoriaeth hon.

Mae arweinwyr a staff yn yr ysgol wedi gweithio'n bwrpasol i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau hyn. Maent yn cydnabod bod ychydig agweddau y gallent wella ymhellach.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol/UCD a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6633057

Yn gywir

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol